

CYFARFOD PWYLLGOR PERSONEL
NOS IAU, AWST 2, YSTAFELL SEIONT

Yn bresennol: Tudor (Maer), Cemlyn (Cadeirydd), Stuart, Eiriona, Eleri,
Ymddiheuriadau: Ann, Brenda

1. **Croeso:**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan esbonio mai pwrpas y cyfarfod oedd llunio argymhellion i'w cyflwyno i'r Cyngor Llawn nos Fawrth Awst 13. Roedd wedi derbyn llythyr o ymddiswyddiad gan y Clerc.
2. **Amserlen gweithredu:**
Efo 12 wythnos o rybudd, dyddiad olaf y Clerc yn ei swydd fydd Hydref 12, ond mae ganddi wyliau i'w cymryd, sy'n golygu ei bod yn gobeithio gorffen ei gwaith Medi 20.
3. **Hysbyseb:**
Cytunwyd i osod yr hysbyseb ar y we yn unig. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol a chost-effeithiol o weithredu.
4. **Swydd-ddisgrifiad:**
Dosbarthwyd y swydd-ddisgrifiad a ddefnyddiwyd wrth drafod cyflog y Clerc. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb ei hastudio dros y penwythnos, a chyflwyno unrhyw awgrymiadau/sylwadau. Holwyd am Fanyleb Person. Cytunodd y Cadeirydd i lunio drafft.
5. **Cyflog:**
Cytunwyd i benodi ar bwynt 33 ar y raddfa. Cytunwyd eisoes bod y cyflog i'w adolygu bob tair blynedd. Cytunwyd hefyd ar gyfnod prawf o 6 mis.
6. **Ffurflen Gais:**
Cytunwyd bod y Cadeirydd yn llunio Ffurflen Gais ar batrwm ffurflenni cais Cyngor Gwynedd, ynghyd â Chanllawiau manwl ynglŷn â sut i'w llenwi. Pwysleiswyd y pwysigrwydd o gael deunydd proffesiynol.
7. **Panel Penodi:**
Cytunwyd ar banel penodi o 5, sef y Maer, y Cadeirydd, Eiriona, Maria a Ioan. Y panel fyddai yn didoli'r ceisiadau i greu rhestr fer, a'r un panel fyddai yn cynnal y cyfweiliadau. Cytunwyd y byddai unrhyw un sy'n adnabod un o'r ymgeiswyr ar y rhestr fer yn camu i lawr.
8. **Amserlen:**
Os yw'r Cyngor yn cymeradwyo ar Awst 13, cyhoeddi'r hysbyseb ar Awst 19, a phennu dyddiad cau o 12:00 ar Awst 29, rhoi copi o bob cais i'r panel penodi ar Awst 30, efo'r bwriad o lunio rhestr fer ar Medi 2, cynnal cyfweiliadau ar Medi 9, a phenodi ar Medi 10. Y gobaith yw y gallai'r Clerc newydd gysgod i'r Clerc presennol am gyfnod cyn iddi hi roi'r gorau iddi.
9. **Ysgrifenyddes:**
Pwysleiswyd y bydd gan yr Ysgrifenyddes rôl bwysig i'w chwarae yn y cyfnod cychwynnol, ac mae hi'n barod i wneud hynny.
10. **UFA:**
Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei waith paratoi trylwyr
Cytunwyd bod Eiriona ac Eleri yn trefnu digwyddiad ffarwel i gydnabod cyfraniad y Clerc dros y blynyddoedd.